Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 21 Mai 2024, am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neil Prior | Aelod y Cabinet dros Gymunedau, Gwelliant Corfforaethol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, CSP (Cadeirydd) |
| Y Cynghorydd Jon Harvey | Arweinydd y Cyngor, CSP |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Cynorthwyol – Cyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, CNC (gadawodd am 11.29am) |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol, PLANED |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) |
| Vikki Butler | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Mererid Lewis | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Ben Williams | Prif Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd, Hywel Dda |
| Rhian Bennett | Uwch-reolwr Comisiynu, CSP (gadawodd am 10.52am) |
| David Evans | Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Sir Benfro |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (gadawodd am 10.45am) |
| Michael Gray | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, CSP (cyrhaeddodd am 11.05am) |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Rachael Rimmer | Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, CSP |
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, CSP |
| Linda Jones | Rheolwr Rhaglen Partneriaeth Ranbarthol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Anna Malloy | Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Porthladd Aberdaugleddau |
| Y Cynghorydd John Davies | Cyngor Sir Penfro |
| Phil Kloer | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.02am

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

Gwahoddodd NP aelodau newydd y grŵp i gyflwyno eu hunain:

- Cyflwynodd BW ei hun fel Prif Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd, ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda
- Cyflwynodd ML ei hun fel aelod newydd o dîm Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
- Cyflwynodd JH ei hun fel Arweinydd newydd Cyngor Sir Penfro.

Dywedodd NP hefyd mai ei rôl newydd nawr yw Aelod y Cabinet dros Gymunedau, Gwelliant Corfforaethol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf / Cofnod Camau Gweithredu

Cofnodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2024 fel rhai cywir.

## 3. Adroddiad Blynyddol Drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-2024

Roedd yr eitem hon yn wreiddiol yn Eitem 5 ar yr agenda ond fe'i dygwyd ymlaen gan NP.

Diolchodd NP i LR, NE a phawb arall oedd wedi cyfrannu at waith ar Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-24. Gwahoddodd sylwadau gan fynychwyr ar fersiwn ddrafft yr adroddiad.

Pwysleisiodd TJ er bod cynnwys yr adroddiad yn dda, ychydig iawn o bobl fyddai'n debygol o'i ddarllen yn ei gyfanrwydd. Gofynnodd a oes cynllun cyfathrebu ar waith er mwyn amlygu'r gwaith pwysig sy'n digwydd o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Awgrymodd TJ y gellid sefydlu grŵp cyfathrebu, yn cynnwys staff cyfathrebu o wahanol sefydliadau, er mwyn gallu rhannu gwybodaeth am waith y

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn well. Dywedodd NE y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid, ac y byddai gofyn iddynt gyfathrebu hyn ar eu gwefannau eu hunain ac ar y cyfryngau cymdeithasol i ledaenu'r neges. Eglurodd y bu ymgais i ffurfio grŵp cyfathrebu yn y gorffennol, ond bod partneriaid wedi cael trafferth enwebu pobl i fod yn rhan o'r grŵp. Amlygodd DE y gallai fod yn fwy ystyrlon canolbwyntio cyfathrebiadau a'r cyfryngau ar y digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, megis yr uwchgynhadledd tlodi, er mwyn profi'n well sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu dros y rhai sydd â phrofiadau bywyd.

Awgrymodd IT y dylid ychwanegu delweddau a dynnwyd yn yr uwchgynhadledd tlodi at yr Adroddiad Blynyddol, er mwyn pwysleisio'n well y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i waith sy'n digwydd ar draws y sir, ac i ddangos cyrhaeddiad eang y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Eglurodd NE y cynhelir arolwg o farn aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol, ond gofynnodd beth oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd. Dywedodd CG y gallai fod yn ddefnyddiol cael sesiwn o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lle gall aelodau fyfyrio ar ganfyddiadau'r arolwg hwn. Dywedodd NP, er bod y gwaith y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dda, y gellid gwneud llawer mwy. Dywedodd fod yr adroddiad yn ymwneud yn fwy â'r hyn y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud yn hytrach na sut y byddwn yn rhoi gwybod i bobl amdano.

Amlygodd DM bwysigrwydd ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth drafod effaith gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd fod angen rheoli disgwyliadau ynghylch yr hyn y gallwn ei gyflawni, gan fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn annhebygol o weld gwir effaith y gwaith a wneir tan ymhell i'r dyfodol. Dywedodd DM mai'r allwedd ar hyn o bryd i nodi lle dylid gwneud cynnydd yw cael pobl â phrofiadau bywyd i gymryd mwy o ran yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i is-grwpiau. Amlygodd fod y grŵp tlodi yn gwneud hyn yn flaenoriaeth iddo, ac y dylai is-grwpiau eraill o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ystyried hyn hefyd.

Dywedodd TJ ei bod yn llai pwysig i bobl fod yn ymwybodol o fodolaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond ei bod yn hanfodol eu bod yn gallu teimlo effaith ei waith. Wrth edrych ymlaen, amlygodd TJ y gallai fod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rai dangosyddion ar waith i ddangos cyfeiriad cliriach ac i helpu mesur llwyddiant.

Er mwyn annog gwell presenoldeb mewn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, awgrymodd IT y dylid cynnal rhai cyfarfodydd o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wyneb yn wyneb. Trafododd y gallai hyn helpu aelodau i weld gwerth cyfarfodydd a phwysigrwydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dangosodd llawer o aelodau eu brwdfrydedd ynghylch yr awgrym hwn. Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Bod cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wyneb yn wyneb yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

Dywedodd BW fod gwaith cydgynhyrchiol yn cael effaith fawr ar y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu yn Sir Benfro. Pwysleisiodd bwysigrwydd cael y cyhoedd i fod yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y lefelau aur, arian ac efydd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth am yr hyn y mae pobl yn Sir Benfro ei eisiau a'i angen gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd NE, pan oedd cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn arfer cael eu cynnal wyneb yn wyneb, roedd dull ar waith i'r cyhoedd fynychu a gofyn cwestiynau. Awgrymodd y gellid ystyried hyn eto os yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn ailgyflwyno cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Dywedodd VB, os yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am hybu ei arfer cydgynhyrchiol, y dylai ddefnyddio ei hun a ML fel adnodd i wneud hynny. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd strwythur sy'n galluogi cydgynhyrchu o'r lefel efydd i fyny.

Dywedodd BW fod clywed llais pobl ifanc yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwysig, yn enwedig o ystyried sut mae gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ategodd TJ y pwynt hwn a dywedodd fod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymgysylltu'n well â grwpiau pobl ifanc yn y sir. Amlygodd NE fod cadeirydd ac is-gadeirydd Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro wedi rhoi cyflwyniadau i gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y gorffennol, a bod sgyrsiau wedi bod ynghylch cael cadeiryddion grwpiau pobl ifanc i eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Disgrifiodd fod yna bethau ymarferol yn y gorffennol a oedd wedi atal hyn rhag cael ei archwilio ymhellach, ond y gellid ailymchwilio i hyn fel posibilrwydd pe bai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn teimlo ei fod yn bwysig. Dywedodd LR, o sgyrsiau â chydweithwyr wrth ddatblygu'r cynllun llesiant, y nodwyd ei bod yn well i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fynychu fforymau pobl ifanc yn hytrach na'u gwahodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y cynllun. Awgrymodd LR y gellid cynnwys eitem yn ymwneud ag ymgysylltu â grwpiau prosiect i'w thrafod ar agenda yn y dyfodol hefyd.

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol, gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol a awgrymwyd gan y Bwrdd i'w gwneud gan LR cyn ei gyhoeddi.

**4. Sesiwn 'sbotolau' ar y Cynllun Llesiant – Prosiect Cryfhau Cymunedau**

Cyflwynodd NP RB i roi cyflwyniad byr ar y gwaith sy'n mynd rhagddo ar gyfer y prosiect Cryfhau Cymunedau. Dywedodd RB ei bod yn aelod o Grŵp Gweithredol Cryfhau Cymunedau Sir Benfro, sef is-grŵp efydd newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhoddwyd rhai diweddariadau allweddol:

- Mae pedwar amcan i waith Cryfhau Cymunedau: cymunedau gweithgar, cymunedau cysylltiedig, cymunedau dyfeisgar a chymunedau cynaliadwy.
- Mae fframwaith lleol newydd wedi'i ddatblygu, a dylai sefydliadau herio eu hunain i ystyried a yw eu sefydliad i'r chwith neu i'r dde o'r fframwaith. Bydd y rhan fwyaf o sefydliadau ar ochr chwith y fframwaith, ond mae angen iddynt nodi sut i symud i'r dde mewn ffordd sy'n ystyrlon i gymunedau.
- Mae sioeau teithiol Cadw'n Iach wedi'u cynnal ledled y sir. Maent wedi helpu i ddod â gwasanaethau lleol a phartneriaid cymunedol ynghyd, fel bod pobl yn gallu cael gwybodaeth a chymorth i'w helpu i fyw'n dda yn eu cymunedau. Mae'r digwyddiadau hyn wedi cael ymateb cadarnhaol.

- Mae gwaith sy'n digwydd o fewn cymunedau wedi'i gydnabod ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Cafodd llawer o brosiectau cymunedol eu cydnabod yng Ngwobrau Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2023/24.
- Mae pum maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2024/25: gwirfoddoli; mentrau cymdeithasol; trosglwyddiadau asedau cymunedol; proffiliau cymunedol a chynllun llesiant; a hyb cymunedol a chysylltwyr cymunedol. Mae grwpiau gorchwyl yn cael eu sefydlu ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau hyn, er mwyn helpu i gyflawni gwaith. Ar draws pob un o'r pum maes blaenoriaeth, bydd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu sylfaen dystiolaeth a methodolegau gwerthuso.
- Mae angen ehangu gweithgarwch a phrosiectau y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol, a sicrhau ymagwedd pob oed. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu trwy weithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae angen rhagor o waith i ddod o hyd i ffynonellau ariannu cynaliadwy ar gyfer y gwaith hwn y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn hon. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o brosiectau'n cael eu hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Gwahoddodd NP yr aelodau i roi sylwadau ar ddiweddariadau Cryfhau Cymunedau. Cynigiodd ML ei chefnogaeth ar gyfer y gwaith hwn a dywedodd yr hoffai fynychu'r grŵp i gynnig cymorth lle bo angen.

## 5. Diweddariadau prosiect y Cynllun Llesiant

*Prosiectau ar thema'r amgylchedd – Bioamrywiaeth a'r Argyfwng Natur / Ymaddasu i Newid Hinsawdd / Datgarboneiddio a Sero Net*

Rhoddodd CD ddiweddariad byr ar brosiectau ar thema'r amgylchedd:

- Mae angen adnoddau o hyd i symud gwaith bioamrywiaeth a natur yn ei flaen, felly ni fu cynnydd eto o ran datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae'r grŵp yn bwriadu adolygu 24 o gamau gweithredu sydd wedi'u cymryd o'r Strategaeth Risg Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd. Er mwyn blaenoriaethu a gweithredu'r camau hyn, mae angen adnoddau ychwanegol. Mae diffyg adnoddau wedi bod yn heriol ond derbyniwyd peth cyllid ar gyfer naill ai hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn o gymorth bob mis.
- Er mwyn cyflawni'r Cynllun Ynni Ardal Leol, gwnaed cyllid ar gael ar gyfer tair swydd ar draws rhanbarth Bae Abertawe. Roedd pob swydd wedi'i llenwi'n wreiddiol, ac roedd cynllunio ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ynni Ardal Leol yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae'r rheolwr prosiect wedi ymddiswyddo ers hynny, felly mae hyn yn ôl ar y cam recriwtio ar hyn o bryd.
- Mae is-grŵp NDC wedi bod yn cael diweddariadau llafar gan sefydliadau partner ar ddechrau pob cyfarfod. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Dywedodd TJ ei fod wedi gwneud cwrs ar lythrennedd carbon yn ddiweddar, a gofynnodd a fyddai hwn ar gael yn ehangach i aelodau eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cadarnhaodd CD fod cwrs e-ddysgu ar gael i holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bod 57 o bobl wedi cymryd y cwrs hyd yma ar draws gwahanol sefydliadau. Eglurodd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i'r dull gorau i'w gyflwyno i hyd yn oed ragor o bobl.

*Prosiect Tlodi*

Rhoddodd DM ddiweddariad byr ar y prosiect tlodi:

- Roedd yr uwchgynhadledd tlodi a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 yn llwyddiannus, ac mae adborth bellach wedi'i gael i helpu i lywio cynllunio yn y dyfodol.
- Mae Sophie Buckley (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro) a VB wedi bod yn gweithio i ddatblygu is-grŵp profiadau bywyd ar gyfer tlodi.
- Bydd DM yn cyfarfod â'r Cynghorydd Mark Tierney i drafod ei rôl fel eiriolwr tlodi ar gyfer Cyngor Sir Penfro. Dywedodd DM ei fod am nodi sut y gall y gweithgor tlodi gynorthwyo'r Cynghorydd Tierney yn ei rôl, ac yn ei dro, sut y gallai'r Cynghorydd Tierney gefnogi'r grŵp a'u gwaith.
- Mae'n debygol y bydd y gweithgor tlodi yn dod â'r prosiect Pŵer Pobl o fewn ei gwmpas yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y prosiect yn parhau i gael ei ariannu i'r flwyddyn ariannol nesaf. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prosiect wedi ymgysylltu â dros 400 o deuluoedd, ac nid oedd 84 ohonynt yn hawlio'r holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl i'w cael. Pwysleisiodd DM na ellir gadael i'r prosiect hwn ddiflannu oherwydd diffyg cyllid, gan ei fod yn hanfodol bwysig i gannoedd o deuluoedd ar draws y sir.

Gofynnodd TJ am eglurhad ar gylch gwaith yr eiriolwr tlodi. Dywedodd DM y byddai'n archwilio hyn yn ei gyfarfod gyda'r Cynghorydd Tierney. Cyfeiriodd MG yr aelodau at adran 24.20 o gyfansoddiad y cyngor, lle mae'n nodi rôl aelod eiriolwr yn fanylach.

Amlygodd IT y dylem ystyried yn ofalus yr iaith a ddefnyddir mewn perthynas â gwaith tlodi. Dywedodd y gallai rhoi'r label 'tlodi' ar aelwydydd sydd angen cymorth eu gwneud yn llai tebygol o wneud hynny. Dywedodd VB fod cyd-destun yn bwysig, ac er ein bod efallai'n defnyddio'r label 'tlodi' yn ein gwaith ein hunain, gallem geisio osgoi hyn wrth ryngweithio'n uniongyrchol ag aelwydydd sydd angen cymorth. Awgrymodd IT hefyd mai ffordd gadarnhaol o fynd i'r afael ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn Sir Benfro fyddai i Gyngor Sir Penfro gymryd yr awenau a dod yn 'gyflogwr cyflog byw'.

## 6. Mesur gwerth Gweithgaredd Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Prifysgol Abertawe

Cyfarfu NP, LR a NE yn ddiweddar â Phrifysgol Abertawe ynghylch y cyllid sydd ar gael i gefnogi awdurdodau lleol i fesur effaith gwaith eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd NE, gan fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dal yn gynnar yn y broses o gyflawni'r cynllun llesiant, mae angen canfod a ydym mewn sefyllfa i wneud hyn. Mae Prifysgol Abertawe wedi nodi y byddai angen sampl o 30-40 o brosiectau i'w gwerthuso fel rhan o'r gwaith hwn. Amlygodd NE y byddai'n anodd dangos cymaint â hynny o brosiectau o weithgarwch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn unig, er y gallai fod yn bosibl pe baem yn nodi prosiectau gan sefydliadau unigol sy'n cysylltu â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gofynnodd IT a yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn eto, gan y gallai ddarparu rhywfaint o ddata meincnodi i weld lle mae Sir Benfro'n sefyll mewn cymhariaeth. Eglurodd NE mai heblaw am Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro yw un o'r rhai cyntaf i ymateb i'r cais hwn.

Dywedodd NP y byddai'n awyddus i’r grŵp Cryfhau Cymunedau gymryd rhan yn hyn, ond y byddai angen i bartneriaid fod yn agored i ymrwymo amser ac adnoddau iddo. Pwysleisiodd MG ac IT fod y cynnig presennol yn canolbwyntio'n ormodol ar ochr feintiol y data, a phe bai'r prosiect yn cynnwys mwy o fewnbwn ansoddol, efallai y byddai'n cyd-fynd yn well â gwaith y grŵp.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Gwahodd rheolwyr prosiect Prifysgol Abertawe i fynychu cyfarfod nesaf is-grŵp arian Cryfhau Cymunedau i drafod y cynnig yn fanylach.

## 7. UNRHYW FATER ARALL

Nododd IT y byddai DE yn ymddeol cyn bo hir fel pennaeth cynorthwyol Coleg Sir Benfro. Diolchodd iddo am ei gyfraniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chymunedau ehangach yn Sir Benfro.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Dosbarthu dolen i'r fideo a recordiwyd yn yr uwchgynhadledd tlodi.

Nododd NE y byddai’r panel partneriaethau, sef y pwyllgor craffu o fewn y cyngor sydd â chyfrifoldeb am graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn cyfarfod ddydd Iau, 23 Mai. Dywedodd ei bod yn bwysig i’r aelodau fod yn ymwybodol o’r panel hwn oherwydd efallai y bydd angen iddynt ei fynychu yn y dyfodol, yn dibynnu ar lefel eu hymwneud â chyflawni cynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.38am.

**Cofnod camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam Gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3 | Archwilio’r opsiwn o gynnal cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos | | NP, LR, NE | i'w cadarnhau |
| 2 | 3 | Ystyried y sylwadau a wnaed gan aelodau BGC ar yr Adroddiad Blynyddol Drafft, a gwneud y diwygiadau angenrheidiol | | LR | Cyflawn |
| 3 | 5 | Gwahodd rheolwyr prosiect Prifysgol Abertawe i fynychu cyfarfod nesaf is-grŵp arian Cryfhau Cymunedau i drafod y cynnig yn fanylach | | LR | Cyflawn |
| 4 | 5 | Dosbarthu dolen i'r fideo a recordiwyd yn yr uwchgynhadledd tlodi | | LR | Cyflawn |